

❖ HER Y NADOLIG: DEWCH I'R WLEDD

Ynghanol holl hwyl a rhialtwch y Nadolig, bydd sawl cennad wedi galw ar ei chynulleidfa i gofio gwir neges y Nadolig.

Ganwyd y Mab o gnawd Mair – un nos oer
 Tan y Seren ddisglair,
 Yn wyrth Dduw o'r groth ddiwair
 Yn y gwellt, Hwn oedd y Gair.

James Nicholas

Beth tybed yw syniad y sawl a fydd yn canu'r carolau a'r emynau Nadoligaidd am Dduw? Ai ymestyniad o Siôn Corn caredig yw Duw i rywrai, neu a oes yna ymwybod o Fod trosgynnol a thragwyddol, na all dyn na'r ddaearen hon newid ei natur na'i faint? Bydd rhai yn barod i loetran uwch y syniad o Ysbryd trosgynnol, ond heb fedru daearu'r syniad hwnnw i greddo a chrefydd. Efallai fod rhai yn ddeistiaid heb wybod hynny, ac y bydd eraill yn cael rhyw wefr dros dro wrth ganu neu wrando ar waith eithriadol y *Meseia* gan Handel. Ofnwn y bydd y mwyafrif helaeth yn gwbl ddifeddwl o hanfod y Nadolig, ac ond am ymgolli yn y môr o afradlonedd.

Mae'n dda bod yna ŵyl canol gaeaf, sy'n galw pobl ynghyd, fel bod rhywrai yn dal cysylltiad â'i gilydd, hyd yn oed os mai dim ond ar lefel dwyn cyfarchion dymunol i'w gilydd y gwneir hynny. Yr hyn sy'n wir ofid bob blwyddyn yw nid yn gymaint yr afradlonedd ond yr unigedd sy'n llethu llawer. Bydd y rhan fwyaf ohonom yn ffodus bod gennym y modd i drefnu dathliad a pharti, ond faint sydd heb gwmni neu deulu bellach? Hawdd y gallwn ddweud mai gŵyl i blant yw'r Nadolig, ond mae pawb yn blant i Dduw, ac fe allwn gyflawni llawer i sicrhau bod mwy o bobl yn dod ynghyd ac yn ymdeimlo â'r wedd gynhwysol sydd i neges yr ŵyl. Onid yn enw Iesu y gallai llawer eglwys drefnu pryd o fwyd, naill ai yn adeiladau'r capel neu ar aelwydydd yr aelodau, fel bod y teulu Cristnogol yn dod ynghyd? Ar fore dydd Nadolig, bydd rhai o selogion yr oedfaon yn absennol, am eu bod yn ymweld â theulu dros yr ŵyl, tra bydd eraill yn ymweld â'u perthnasau yn y brifddinas ac yn ymuno yn ein hoedfa Fore'r Nadolig. Clywais yn ddiweddar am ysgrifennydd un o'n heglwysi yn trefnu bod rhai o'r oedrannus o blith ei gyd-aelodau yn dod i rannu pryd ar ei aelwyd.

Ond beth am y sawl nad ydynt yn aelodau o eglwys, a heb unrhyw gwmni ar y dydd? Beth am y sawl sy'n cerdded y strydoedd a heb fodd i brynu unrhyw beth i hyrwyddo'r dathlu? Hwyl yw'r bobl sy'n edrych i mewn – yn gweld y sbri ond yn methu cael rhan o'r llawenydd. Dyma gyfle gwych i'r eglwys leol wneud rhywbeth cadarnhaol i ddangos cariad Crist i'r byd sydd o'u cwmpas. Gall hyn fod yn her ym mhob pentref a chymuned. Wrth i ni gyfarch ein gilydd eleni yn ysbryd yr ŵyl, rhannwn yr ŵyl fel bod eraill yn cael y cyfle i brofi'r wledd a gweld y wyrth.

Denzil Ieuan John